COMISIYNYDD SAFONAU
STANDARDS COMMISSIONER

# ADRODDIAD BLYNYDDOL
## Ebrill 2024 - Mawrth 2025



Mae'r Comisiynydd Safonau y Senedd yn berson annibynnol a benodir gan Senedd Cymru i ddiogelu safonau, cynnal enw da'r sefydliad a mynd i'r afael â chwynion.



Mae copi electronig o'r adroddiad hwn ar gael ar wefan Comisiynydd Safonau'r Senedd:
**www.comisiynyddsafonaucymru.org.**

Gellir cael copïau o'r adroddiad hwn hefyd mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopi caled gan:

**Comisiynydd Safonau'r Senedd**
**Tŷ Hywel**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1SN**

Ffôn: 0300 200 6542
E-bost: **Comisiynydd.Safonau@senedd.cymru**

COMISIYNYDD SAFONAU
STANDARDS COMMISSIONER

# ADRODDIAD BLYNYDDOL
## Ebrill 2024 - Mawrth 2025



# Cynnwys

1. Cyflwyniad .......... 6
2. Swyddogaethau a dyletswyddau'r Comisiynydd .......... 7
3. Cwynion .......... 8
4. Gwaith arall .......... 13
5. Gwariant .......... 14
6. Y flwyddyn sydd i ddod .......... 16
7. Diolchiadau .......... 17

# 1. Cyflwyniad

**1.** Dyma fy mhedwerydd adroddiad blynyddol fel Comisiynydd Safonau'r Senedd Mae'r adroddiad yn amlinellu sut y cyflawnais swyddogaethau'r swydd honno yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2025.

**2.** Ar ôl nodi'r darpariaethau statudol perthnasol, mae'n rhoi gwybodaeth am nifer y cwynion a phynciau'r cwynion a ddaeth i law a'r modd y cawsant eu prosesu. Rhoddir gwybodaeth hefyd am waith arall a wnaed yn 2024-25, gwariant swyddfa'r Comisiynydd a'r hyn sydd wedi'i gynllunio ar gyfer 2025-26.

# 2. Swyddogaethau a dyletswyddau'r Comisiynydd

**3.** Nid oedd unrhyw newidiadau i swyddogaethau a dyletswyddau'r Comisiynydd yn ystod y flwyddyn adrodd. Crëwyd swydd Comisiynydd Safonau'r Senedd gan adran 1(1) o Fesur Comisiynydd Safonau Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2009 ('y Mesur').[1] Mae Adran 5 o'r Mesur yn darparu ar gyfer annibyniaeth y Comisiynydd ar gyfarwyddyd neu reolaeth y Senedd.

**4.** Nodir swyddogaethau'r Comisiynydd yn adrannau 6 a 7 o'r Mesur a gellir eu crynhoi fel a ganlyn –

- derbyn unrhyw gŵyn bod Aelod wedi methu â chydymffurfio ag un o ofynion y Cod Ymddygiad[2] ('y Cod') neu ddarpariaeth berthnasol arall, ymchwilio i gwynion o'r fath a chyflwyno adroddiad i'r Pwyllgor Safonau Ymddygiad ('y Pwyllgor') ar y rhai sy'n dderbyniadwy;[3]
- Cynghori Aelodau o'r Senedd ac aelodau'r cyhoedd am y gweithdrefnau ynglŷn â gwneud cwynion ac ymchwilio i gwynion;
- Rhoi cyngor i'r Senedd ar unrhyw fater o egwyddor gyffredinol sy'n ymwneud â safonau ymddygiad Aelodau, y weithdrefn ar gyfer ymchwilio i gwynion neu unrhyw fater arall sy'n ymwneud â hyrwyddo, annog a diogelu safonau uchel o ymddygiad mewn swydd gyhoeddus fel Aelod o'r Senedd.

**5.** Mae adran 19 o'r Mesur yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiynydd, cyn gynted â phosibl ar ôl diwedd pob blwyddyn ariannol, gyflwyno adroddiad i'r Senedd ar sut mae swyddogaethau'r Comisiynydd wedi cael eu harfer yn ystod y flwyddyn honno.

---

[1] **http://www.legislation.gov.uk/mwa/2009/4/contents; http://www.legislation.gov.uk/mwa/2009/4/contents/enacted/welsh**
Cafodd teitl y swydd ei newid o Gomisiynydd Safonau Cynulliad Cenedlaethol Cymru pan ddaeth adran 7 o Ddeddf y Senedd ac Etholiadau (Cymru) i rym ar 6 Mai 2020.
[2] **https://www.assembly.wales/en/memhome/code-conduct-mem/Pages/default.aspx**
[3] Fel y'u diffinnir yn adran 6(3) o'r Mesur.

# 3. Cwynion

## Cyflwyniad

**6.** Treuliwyd y rhan fwyaf o'm hamser o bell ffordd yn ystod y flwyddyn yn ymdrin â chwynion yn erbyn Aelodau o'r Senedd. Nodir rhagor o wybodaeth amdanynt y paragraffau a ganlyn.

## Cwynion a ddygwyd ymlaen o 2023-24

**7.** Ar ddechrau'r flwyddyn adrodd, nid oedd unrhyw gwynion yn aros am benderfyniad ar dderbyniadwyedd. Roedd ymchwiliadau i ddwy gŵyn dderbyniadwy yn mynd rhagddynt ar ddechrau'r flwyddyn. Roedd y cwynion bron yn union yr un fath a chafodd fy adroddiadau ar yr ymchwiliadau hyn eu cyflwyno i'r Pwyllgor ym mis Gorffennaf 2024.[4]

## Cwynion newydd

**8.** Yn ystod y flwyddyn, cafwyd 136 o gwynion newydd. Ymdriniwyd â phob un o'r cwynion hyn yn unol â'r Weithdrefn.

**9.** Dangosir ffynonellau, pynciau a rhesymau dros annerbyniadwyedd y cwynion hyn yn y Tablau isod.

[4] Yr ail adroddiad ar bymtheg i'r Chweched Senedd o dan Reol Sefydlog 22.9 - Andrew RT Davies

*Tabl 1: Cwynion a ddaeth i law, ffynhonnell a derbyniadwyedd*

| | 2020-21 | 2021-22 | 2022-23 | 2023-24 | 2024-25 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Daeth i law** | 216 | 44 | 71 | 190 | 136 |
| **% gan y cyhoedd** | 94 | 91 | 58 | 89 | 92 |
| **% gan Aelod yn erbyn Aelod** | 4.5 | 0 | 0 | 0.5 | 2 |
| **% gan Aelod yn ei erbyn ei hun** | 0.5 | 0 | 7 | 1.5 | 1 |
| **% gan Glerc y Senedd** | 1 | 9 | 35 | 9 | 5 |
| **% annerbyniadwy** | 41 | 80 | 49 | 84 | 82 |
| **% derbyniadwyedd heb ei benderfynu erbyn diwedd y flwyddyn** | 9 | 5 | 0 | 1 | 3 |

*Tabl 2: Cwynion yn ôl pwnc*

| | 2020-21 | 2021-22 | 2022-23 | 2023-24 | 2023-24 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Ymddygiad ar y cyfryngau cymdeithasol** | 60 | 6 | 8 | 53 | 44 |
| **Camddefnyddio adnoddau** | 25 | 4 | 5 | 3 | 5 |
| **Safon gwasanaeth** | 7 | 16 | 5 | 17 | 15 |
| **Methu â chofrestru / datgan / diweddaru buddiant** | 95 | 7 | 27 | 24 | 12 |
| **Y tu allan i gylch gwaith (ymddygiad yn y Cyfarfod Llawn neu ymddygiad Gweinidogol)** | 12 | 3 | 20 | 29 | 22 |
| **Ymddygiad arall**[5] | 17 | 8 | 6 | 64 | 38 |
| **CYFANSWM** | **216** | **44** | **71** | **190** | **136** |

[5] Ceir cwynion mewn sawl maes gwahanol ac mae'r adran hon yn cynnwys cwynion sy'n amrywio o dderbyn rhoddion i weithredoedd Aelod mewn ymateb i'r hyn a welwyd yn bostiadau bygythiol ar gyfryngau cymdeithasol. Roedd pynciau eraill y cwynwyd amdanynt yn cynnwys polisïau Llywodraeth Cymru, sylwadau gan Aelodau yn y cyfryngau darlledu, a chwynion am staff yn gweithio ar etholiadau yn ystod oriau swyddfa.

*Tabl 3: Rhesymau nad yw cwyn yn dderbyniadwy*

| Rhif y rheswm | Disgrifydd | 2020-21 | 2021-22 | 2022-23 | 2023-24 | 2024-25 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **1** | Ddim yn ysgrifenedig (Paragraff 4.2(a) y Weithdrefn) | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **2** | Ddim yn enwi'r achwynydd (Paragraff 4.2(b) y Weithdrefn) | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **3** | Ddim yn ymwneud ag ymddygiad Aelod a enwyd (Paragraff 4.2(c) y Weithdrefn) | 2 | 2 | 0 | 9 | 1 |
| **4** | Ddim yn datgan gweithred neu ddiffyg y cwynir amdano (Paragraff 4.2(d) y Weithdrefn) | 86 | 33 | 1 | 9 | 2 |
| **5** | Tystiolaeth ategol annigonol (Paragraff 4.2(e)(i) y Weithdrefn)[6] | - | - | 3 | 40 | 22 |
| **6** | Ymddygiad, os profir, nad yw'n torri darpariaeth berthnasol (Paragraff 4.2(e)(ii) y Weithdrefn) | | | | | |
| | a. Ymddygiad yn y Cyfarfod Llawn neu Bwyllgor (Paragraff 3 y Cod)[7] | - | - | 13 | 17 | 12 |
| | b. Ymddygiad Gweinidogol (Paragraff 7(ii) y Cod)[8] | - | - | 7 | 12 | 10 |
| | c. Safon gwasanaeth (Paragraff 7(iii) y Cod)[9] | - | - | 4 | 17 | 27 |
| | d. Arall | - | - | 7 | 100 | 35 |
| **7** | Ddim o fewn y cyfnod a ganiateir (Paragraff 4.2(g) y Weithdrefn) | 1 | 0 | 0 | 1 | 2 |

**10.** O'r 20 cwyn dderbyniadwy, roedd 7 yn atgyfeiriadau gan y Clerc i'r Senedd. Roedd pob un yn ymwneud â methiannau bach gan Aelodau i hysbysu newid i'w buddiannau cofrestredig o fewn yr amser a ganiateir o dan y Rheolau Sefydlog. Ym mhob achos, gan fod yr Aelodau

[6] Pan fydd Achwynwyr yn methu, i ddechrau, â darparu digon o dystiolaeth neu wybodaeth i gefnogi cwyn a allai fod yn dderbyniadwy, byddant yn cael o leiaf 14 diwrnod i'w darparu.
[7] Mae paragraff 3 o'r Cod yn darparu mai'r Llywydd a chadeiryddion pwyllgorau fydd, fel arfer, yn ymdrin ag ymddygiad Aelodau yn ystod Cyfarfod Llawn y Senedd ac mewn pwyllgorau, drwy droi at Reolau Sefydlog y Senedd. Dim ond os caiff cwyn am ymddygiad o'r fath ei chyfeirio at y Comisiynydd gan y Llywydd neu gadeirydd pwyllgor y caiff y Comisiynydd ymchwilio iddi.
[8] Mae adran 8 o'r Mesur a pharagraff 7(ii) o'r Cod yn ei gwneud yn glir nad oes gan y Comisiynydd unrhyw rôl mewn perthynas â chwynion am gamymddwyn honedig gan Aelod wrth weithredu'n llwyr yn rhinwedd ei swydd fel Gweinidog. Cafodd yr achwynwyr a honnodd gamymddwyn gweinidogol eu cyfeirio at swyddfa'r Prif Weinidog.
[9] Mae paragraff 7(iii) o'r Cod yn darparu nad yw'n ymwneud â safon gwasanaeth a chanlyniadau a geir gan Aelod.

wedi derbyn y gwall a'i gywiro, argymhellais i'r Pwyllgor na ddylwn barhau â'm hymchwiliad. Derbyniwyd pob argymhelliad o'r fath.

**11.** Daeth fy ymchwiliad i un o'r cwynion derbyniadwy i ben, yn unol â pharagraff 5.1(c) o'r Weithdrefn, pan gefais fy hysbysu gan yr Achwynydd nad oedd am barhau â'i gŵyn.

**12.** Cychwynnais ymchwiliad ffurfiol llawn i 11 o'r cwynion derbyniadwy eraill. Cyflwynwyd fy adroddiadau ar dri o'r ymchwiliadau hyn i'r Pwyllgor yn ystod y flwyddyn. Ym mhob un o'r adroddiadau hyn, rhoddais fy marn bod darpariaeth berthnasol wedi cael ei thorri. Cytunodd y Pwyllgor â'r tair barn. [10] [11] [12]

**13.** Fe ymesgusodais fy hun o ymchwilio i un o'r cwynion derbyniadwy am fy mod i wedi ymwneud â'r partïon yn ystod fy ymchwiliad i gŵyn arall. Yn unol ag adran 4 o'r Mesur, fe gafodd Melissa McCullough, Comisiynydd Safonau Cynulliad Gogledd Iwerddon a Chomisiynydd Safonau'r Ynysoedd Cyfan, ei phenodi'n Gomisiynydd Dros Dro. Cyflwynwyd adroddiad ei hymchwiliad i'r Pwyllgor ym mis Mawrth 2025.[13]

## Cwynion a ddygwyd ymlaen i 2025-26

**14.** Ar ddiwedd y flwyddyn, roedd fy ymchwiliadau i'r wyth cwyn dderbyniadwy, a oedd yn weddill a ddaeth i law yn ystod y flwyddyn, yn parhau.[14]

**15.** Cafodd pedair cwyn eu hatal dros dro gyda'u derbyniadwyedd eto i gael ei benderfynu. Fe ataliais i'r cwynion hyn dros dro am eu bod bron yn union yr un fath â chwynion a oedd eisoes yn destun ymchwiliad. Ymdrinnir â'r cwynion sydd wedi cael eu hatal dros dro pan fyddaf yn cyflwyno fy adroddiad i'r Pwyllgor ar y cwynion cysylltiedig.

## Ystyriaethau

**16.** Rwyf yn fodlon bod ymddygiad cyffredinol yr Aelodau yn parhau i fod o safon uchel.

**17.** Roedd y gostyngiad o 59 yn nifer y cwynion a ddaeth i law i'w briodoli i raddau helaeth i'r gostyngiad sylweddol yn nifer y cwynion a oedd wedi cael eu gwneud yn erbyn y ddau Aelod a oedd yn destun 58 o gwynion yn 2023-24.

[10] Y Pedwerydd adroddiad ar ddeg i'r Chweched Senedd o dan Reol Sefydlog 22.9
[11] Y deunawfed adroddiad i'r Chweched Senedd o dan Reol Sefydlog 22.9
[12] Y Pedwerydd adroddiad ar bymtheg i'r Chweched Senedd o dan Reol Sefydlog 22.9
[13] Yr Ugeinfed adroddiad i'r Chweched Senedd o dan Reol Sefydlog 22.9
[14] Mae'r holl ymchwiliadau hyn wedi'u cwblhau ac mae adroddiadau wedi'u cyflwyno i'r Pwyllgor ar saith ohonynt

**18.** Ni welwyd unrhyw newid mawr naill ai yng nghanran y cwynion a wnaed gan aelodau'r cyhoedd nac yng nghanran y cwynion a oedd yn annerbyniadwy.

**19.** Y rheswm unigol pennaf dros ddal bod cwynion yn annerbyniadwy oedd eu bod yn ymwneud ag Aelod yn darparu gwasanaeth gwael honedig i'w etholwyr. Mae paragraff 7 o'r Cod Ymddygiad yn darparu nad yw'r Cod yn gymwys "*mewn perthynas â safon y gwasanaeth a'r canlyniadau a gafwyd gan Aelod*".Daethpwyd i'r farn bod yr ateb am wasanaeth gwael gan Aelod i'w gael drwy'r blwch pleidleisio yn yr etholiad nesaf. Gyda chyflwyniad y system cynrychiolaeth gyfrannol ar sail rhestr gaeedig o dan Ddeddf Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) 2024, ni fydd yr ateb hwnnw ar gael mwyach.

**20.** Rwy'n gwerthfawrogi bod cyfryngau cymdeithasol yn offeryn allweddol i rai Aelodau. Fodd bynnag, mae'n destun pryder, er gwaethaf y rhybuddion a roddwyd yn y sesiynau ymwybyddiaeth i'r Aelodau a'u staff a chan y y Pwyllgor, mae cwynion am ymddygiad ar y cyfryngau cymdeithasol yn niferus o hyd. Rwyf wedi argymell i Gomisiwn y Senedd y dylid darparu hyfforddiant pwrpasol i'r Aelodau a'u staff ynghylch defnyddio cyfryngau cymdeithasol. Mae hyn yn arbennig o angenrheidiol oherwydd y gyfran uchel o Aelodau newydd sy'n debygol o gael eu hethol yn 2026.

# 4. Gwaith arall

**21.** Wrth ystyried cwynion, nodais eto sawl enghraifft lle y gellid gwneud gwelliannau i'r Cod a'r Weithdrefn. Roeddwn i'n falch o nodi bod Llywodraeth Cymru bellach wedi ymrwymo i weithredu rhai o’m hargymhellion blaenorol, gan gynnwys rhoi'r pŵer i'r Comisiynydd gychwyn ymchwiliad heb yr angen am gŵyn a phenodi aelodau annibynnol i'r Pwyllgor Safonau Ymddygiad.

**22.** Gwneuthum gyflwyniadau i'r Pwyllgor hwnnw mewn perthynas â'i ymchwiliadau i Gyfrifoldeb Aelodau Unigol - Dichell Fwriadol ac Urddas a Pharch.

**23.** Cwblhawyd y gwaith ar y wefan newydd. Mae'n llawer haws ei ddefnyddio ac yn darparu llawer mwy o wybodaeth na'r fersiwn flaenorol. Mae ffurflen gwyno newydd ar gael yn ogystal â gwybodaeth am y broses gwyno a'r gefnogaeth sydd ar gael i bawb sy'n ymwneud â'r broses gwyno.

**24.** Euthum i’r Rhwydwaith Safonau yn Belfast a chefais gyfnewidiadau defnyddiol gyda chynrychiolwyr o Loegr, yr Alban, Gogledd Iwerddon, Ynys Manaw ac Ynysoedd y Sianel. Yn ogystal, cefais gyfarfodydd, fel arfer o bell, â nifer o ffigyrau allweddol ym maes safonau, gan gynnwys Cadeirydd y Pwyllgor Safonau mewn Bywyd Cyhoeddus, y Comisiynydd Seneddol dros Safonau, Comisiynydd Safonau Cynulliad Gogledd Iwerddon, ac Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

**25.** Yn ystod y flwyddyn, cefais ohebiaeth ar ystod eang o faterion y tu allan i'm cylch gwaith fel Comisiynydd. Ym mhob achos, esboniwyd i'r gohebwyr pam na allwn eu cynorthwyo a chawsant eu cyfeirio at y sefydliad priodol i ddelio â'u problem.

# 5. Gwariant

**26.** O dan adran 3 a pharagraff 5 o’r Atodlen i’r Mesur, rhaid i Gomisiwn y Senedd dalu’r Comisiynydd y cyflog a’r lwfansau a gytunir yn nhelerau ac amodau’r penodiad. Rhaid i’r Comisiwn hefyd dalu’r holl dreuliau rhesymol yr eir iddynt yn gyfreithlon gan y Comisiynydd wrth gyflogi staff, prynu nwyddau neu wasanaethau, a thalu lwfansau neu dreuliau i dystion.

**27.** Mae'r gwariant gan swyddfa'r Comisiynydd ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2024 i’w weld yn Nhabl 4.

*Tabl 4 – Gwariant swyddfa'r Comisiynydd*

| | 2020-21 | 2021-22 | 2022-23 | 2023-24 | 2024-25 |
|---|---|---|---|---|---|
| | £ | £ | £ | £ | £ |
| **Costau cyflogaeth y Comisiynydd (Nodyn 1)** | 0 | 30,538 | 34,692 | 48,847 | 39,137 |
| **Teithio a Chynhaliaeth y Comisiynydd** | 0 | 1,014 | 4,264 | 5,199 | 24 |
| **Costau eraill y Comisiynydd** | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Costau cyflogaeth y Comisiynydd Dros Dro (Nodyn 1)** | 42,517 | 0 | 0 | 0 | 2,940 |
| **Teithio a chynhaliaeth y Comisiynydd Dros Dro** | 105 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Costau eraill y Comisiynydd Dros Dro** | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm gwariant y Comisiynydd a'r Comisiynydd Dros Dro** | 42,622 | 31,552 | 38,955 | 54,045 | 42,101 |
| **Costau cyflogaeth (Nodyn 2)** | 92,834 | 70,874 | 71,115 | 74,448 | 75848 |
| **Teithio a chynhaliaeth staff** | 0 | 0 | 0 | 0 | 520 |
| **Costau eraill staff** | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm costau staff** | 92,834 | 70,874 | 71,115 | 74,448 | 76368 |
| **Gwariant arall yr aed iddo**[15] | 25,259 | 4,957 | 9,524 | 5,498 | 8,555 |
| **CYFANSWM GWARIANT SWYDDFA’R COMISIYNYDD** | **160,715** | **107,383** | **119,595** | **133,992** | **127,025** |

Nodyn 1 - Tâl y Comisiynydd + cyfraniadau yswiriant gwladol y cyflogwr

Nodyn 2 - Cyflog staff + cyfraniadau yswiriant gwladol y cyflogwr + cyfraniad pensiwn y cyflogwr

**28.** Mae cost rhedeg swyddfa'r Comisiynydd yn dibynnu'n helaeth iawn ar nifer y cwynion sy’n dod i law a faint ohonynt sy'n dderbyniadwy ac felly’n gofyn ymchwiliad. Er bod nifer y cwynion a ddaeth i law yn 2024-25 54 yn llai na'r flwyddyn flaenorol, bu'n rhaid treulio mwy o amser yn ymchwilio i'r rhai oedd yn dderbyniadwy. Gyda chytundeb pawb dan sylw, gwnaed arbedion sylweddol drwy ddefnyddio Microsoft Teams i gynnal cyfweliadau. At ei gilydd, roedd y gwariant 5% yn is na'r flwyddyn flaenorol a bron i 21% yn llai nag yn 2020-21.

[15] Roedd hwn yn cynnwys taliadau am wasanaethau cyfreithiol, trawsgrifio, a ymdrin â’r cyfryngau.

# 6. Y flwyddyn sydd i ddod

**29.** Yn ogystal ag ymdrin â chwynion, byddaf, yn ystod 2025-26, yn parhau i weithio'n agos gyda'r Pwyllgor a'i staff i wneud y broses gwynion yn fwy effeithiol ac effeithlon drwy nodi unrhyw beth yn y Mesur, y Cod a'r Weithdrefn y gellid ei wella.

**30.** Byddaf yn parhau i gyfrannu i ymchwiliadau'r Pwyllgor.

**31.** Byddaf yn ymgysylltu ag arweinwyr y pleidiau ac yn ceisio cytuno ar broses ar gyfer ymdrin â chwynion am wasanaeth gwael gan Aelodau.


**32.** Byddaf yn ystyried goblygiadau i'm gwaith o'r newidiadau deddfwriaethol arfaethedig sy'n debygol o ddod i rym ar ddechrau'r Seithfed Senedd.

**33.** Byddaf yn cynnig sesiynau ymwybyddiaeth pellach i Aelodau pob plaid a'u staff ac yn paratoi ar gyfer darparu sesiynau ar gyfer y llawer o Aelodau newydd a fydd yn cael eu hethol ym mis Mai 2026.

**34.** Byddaf yn parhau i gysylltu â'r rhai sy'n gwneud gwaith tebyg mewn awdurdodaethau eraill gyda'r bwriad o nodi a chyflwyno arfer gorau.

# 7. Diolchiadau

**35.** Gwnaeth Jonathan Thomas, fy Rheolwr Ymchwiliadau a Chwynion, ddefnydd llawn o’i flynyddoedd yn fwy o brofiad o gefnogi pob Comisiynydd Safonau ers i’r swydd gael ei chreu yn 2009. Heb ei gymorth diwyro, byddai fy nhasg wedi bod yn llawer anoddach. Rwy’n ddiolchgar iawn i Meriel Singleton, Clerc y Pwyllgor Safonau Ymddygiad, i Sean Powell o Adran TGCh a Darlledu Comisiwn y Senedd am ei waith gofalus a'i gymorth gyda'r wefan newydd, ac i'r llawer o staff eraill yng Nghomisiwn y Senedd a'm helpodd i gyflawni fy nyletswyddau.



**Douglas Bain CBE TD**

Comisiynydd Safonau’r Senedd

11 Gorffennaf 2025





COMISIYNYDD SAFONAU

STANDARDS COMMISSIONER

